# MARCHNADOEDD YR WYDDGRUG

*Mae'n ddiwrnod allan gwych*






*Y farchnad stryd fwyaf a'r orau yng Ngogledd Cymru*

tripadvisor

## Croeso

Croeso i'r Wyddgrug, tref farchnad draddodiadol sy'n swatio wrth droed Bryniau Clwyd. Ein marchnad stryd a dan do enwog, siopau annibynnol, lleoliadau gwych i yfed a bwyta, cyfoeth o hanes diwylliannol a nifer o ddigwyddiadau gwych.





Profiad siopa gwahanol bob diwrnod o'r wythnos. Mae yna ddigonedd o lefydd parcio pum munud ar droed i ffwrdd o'r farchnad. Mae yna gilfachau penodol i goetsys a gwasanaeth bws yn cysylltu trefi cyfagos gan gynnwys Caer, Wrecsam a'r cyrchfannau arfordirol.

**Marchnadoedd stryd** - fe'u cynhelir bob dydd Mercher a dydd Sadwrn rhwng 9am a 3.30pm trwy gydol y flwyddyn gan ddenu mwy na 70 o fasnachwyr. Mae'r dref yn llawn stondinau marchnad ar y stryd fawr ac ar Sgwâr Daniel Owen, ac yn gwerthu amrywiaeth eang o ffrwythau a llysiau, cawsiau a chigoedd, yn ogystal â chrochenwaith, dillad a phlanhigion. Does dim i guro marchnad stryd i gael awyrgylch a gwir flas o dref. Mwynhewch y bwrlwm wrth i chi chwilio am fargeinion ac fe gewch chi ddigon o gyngor ar faterion sy'n amrywio o sut i goginio cinio dydd Sul yn berffaith i'r planhigyn gorau i'w blannu yn rhannau trafferthus eich gardd.

**Marchnad dan do** - yng nghanol Canolfan Daniel Owen mae yna farchnad dan do sy'n ffynnu sydd ar agor rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, gydag o fasnachwyr unigol.

**Marchnad Ffermwyr** - Mae hi werth ymweld â marchnad y ffermwyr hefyd, lle caiff bwydydd a diodydd ffres a chrefftau sy'n cael eu cynhyrchu'n lleol eu gwerthu gan ffermwyr lleol a gweithwyr crefft medrus. Cynhelir marchnad y ffermwyr yn Neuadd Eglwys y Santes Fair (Heol y Brenin) rhwng 9am a 2pm ar ddydd Sadwrn cyntaf a thrydydd dydd Sadwrn y mis.

## Archwilio'r Wyddgrug



Ar gyfer ymwelwyr, gallwch werthfawrogi hanes a phensaernïaeth ar bob cornel, o Eglwys hardd y Santes Fair, capeli ffwndamentalaidd Cymreig a cherflun ac amgueddfa i'r awdur enwog Daniel Owen. Roedd llawer o'r farn mai ef oedd Charles Dickens Cymru. Mae atgynhyrchiad o "Fantell Aur yr Wyddgrug" o'r Oes Efydd yn amgueddfa'r dref hefyd, sef y darn mwyaf o waith aur cyn hanesyddol sydd wedi'i ddarganfod ym Mhrydain. Mae'r gwreiddiol i'w weld ymhlith y 10 arddangosfa fwyaf poblogaidd yn Amgueddfa Prydain.

Mae ymweld â Bryn y Beili yn ffordd wych o gofio am hen hanes y dref lle mae gweddillion Castell Mwnt a Beili i'w gweld yn glir, wrth fwynhau golygfeydd o Ddyffryn Alun.

**Llwybr Tref yr Wyddgrug** - mae angen awr i gwblhau'r llwybr 2km o hyd, ac mae'n gyfle i weld rhai o nodweddion hyfryd y dref farchnad wych a bach yma.



Mae ystod wych o siopau annibynnol yn cyd-fynd â siopau'r stryd fawr y dref, ynghyd â sector lletygarwch sy'n tyfu'n gyflym sydd â rhywbeth at ddant pawb. Mae gan y dref hyd yn oed ei fragdy ei hun - Bragdy Hafod!

Y dref gyntaf yng Nghymru (o Ogledd Orllewin Lloegr) lle gellir clywed y Gymraeg ar y stryd.

Cartref i'r enwog Theatr Clwyd gyda rhaglen lawn o sioeau a pherfformiadau theatraidd. www.theatrclwyd.com


Porth i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy gyda llawer o lwybrau gwledig, ac yn benodol y llwybr i fyny at Dŵr Jiwbilî ar Moel Famau - y pwynt uchaf ym Mryniau Clwyd (mae angen tua 2-3 awr i gwblhau'r daith gerdded).










Sut i ddod o hyd i ni

## Gwybodaeth Bellach

Cadwch lygad am fannau gwybodaeth i ymwelwyr mewn lleoliadau allweddol trwy gydol y dref, ac mae Llyfrgell y Dref yn Sgwâr Daniel Owen bob amser yn fodlon helpu.

Calendr gwych o wyliau a digwyddiadau – Gŵyl Blws a Soul gwych ym mis Awst, Gŵyl Fwyd a Diod ym mis Medi, dathliad llenyddol gwych sef Gŵyl Daniel Owen ym mis Hydref. Mae'r canllaw tref newydd a rhagor o fanylion am raglen o ddigwyddiadau blynyddol y dref ar gael ar www.moldtowncouncil.org.uk





















Mae gwybodaeth i ymwelwyr ar gael ar: www.gogleddddwyraincymru.cymru

Explore Flintshire North East Wales

Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council